Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Tachwedd 2023

I rieni/ofalwyr holl ddisgyblion Castell-nedd Port Talbot

Annwyl Riant/Ofalwr,

**PRESENOLDEB RHEOLAIDD YN YR YSGOL**

Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn enw da iawn ein hysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot. Drwy gydol y blynyddoedd, mae ein disgyblion wedi rhagori'n gyson yn yr ystafell ddosbarth ac mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau allgyrsiol, o chwaraeon a cherddoriaeth i ddrama a'r celfyddydau. Un thema sy'n gyffredin ymhlith y disgyblion hyn sy'n cyflawni'n uchel yw eu cofnod presenoldeb da. Mae astudiaethau'n dangos dro ar ôl tro fod myfyrwyr a chanddynt bresenoldeb rheolaidd yn cyflawni canlyniadau gwell. Po fwyaf yr amser y mae plant a phobl ifanc yn ei dreulio gyda phlant eraill yn yr ystafell ddosbarth, mwyaf y cyfle sydd ganddynt i wneud ffrindiau, teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a datblygu sgiliau cymdeithasol, hyder a hunan-barch.

Gan gydnabod y rôl hollbwysig y mae presenoldeb yn ei chwarae mewn addysg plant, gwnaethom lansio'r ymgyrch "Colli'r Ysgol, Colli Allan" yn ddiweddar. Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar fuddion presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn yr ysgol, y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer eich plentyn a sut y gallwch chi helpu i atal absenoldeb. I ddysgu mwy am yr ymgyrch, ewch i'n gwe-dudalen ddynodedig: https://beta.npt.gov.uk/cy/ysgolion-a-dysgu/presenoldeb-yn-yr-ysgol-a-lles/presenoldeb-yn-yr-ysgol/ <http://www.npt.gov.uk/school-attendance>

Effeithiwyd ar bresenoldeb disgyblion ar draws Cymru gyfan gan y pandemig, fodd bynnag ers hynny rydym wedi sylwi nad yw pob disgybl wedi ail-ymgysylltu'n llawn â'r ysgol, ac nid ydynt yn bresennol mor aml ag yr oeddent yn flaenorol. Dyna pam yr ydym ni, yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn gwneud cymaint ag y gallwn i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau posib mewn bywyd, a chyfleoedd i ddychwelyd i ddysgu amser llawn.

Rydym yn deall y gall ffactorau amrywiol, megis apwyntiadau meddygol, salwch, anableddau neu brofedigaethau teuluol, atal disgyblion rhag mynychu'r ysgol ar brydiau, er gwaethaf eu parodrwydd i wneud hynny. Os ydych yn cael anawsterau yn annog eich plentyn i fynychu'r ysgol neu'n credu bod angen cefnogaeth ychwanegol arno, rydym yn eich annog i gysylltu â'ch ysgol yn y lle cyntaf, neu'r Gwasanaeth Lles Addysg.



**Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes**
**Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes**
Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

**Education, Leisure & Lifelong Learning**
**Director of Education, Leisure & long Learning**
Civic Centre, Port Talbot SA13 1PJ

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.
We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

Mae staff ar gael i drafod y materion gyda chi ac i awgrymu addasiadau posib i wella presenoldeb eich plentyn. Gallant hefyd archwilio gwasanaethau cefnogi eraill a all fod yn addas.

Rydym hefyd yn deall bod pethau'n anodd ar hyn o bryd gyda'r argyfwng costau byw parhaus, felly hoffem eich atgoffa o'r gefnogaeth y gallech fod yn gymwys amdani ar gyfer pethau fel biliau aelwyd, costau gofal plant, costau mewn perthynas â'r ysgol fel gwisg ysgol a phrydau ysgol, a chyngor cyffredinol am sut i reoli arian a dyled. Ewch i https://beta.npt.gov.uk/cy/tai-a-budd-daliadau/help-gyda-chostau-byw/ i gael rhagor o wybodaeth.

Mae buddion tymor hir amlwg i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd; hoffem annog pob teulu i gefnogi ei blentyn i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, hyd yn oed os nad yw'n gwneud hynny ar hyn o bryd.

**Mae'r tabl isod yn darparu enghraifft o'r effaith y mae dysgu coll drwy absenoldeb disgyblion yn ei chael:**


| Presenoldeb yn ystod un flwyddyn ysgol | Nifer y diwrnodau o absenoldeb cyfwerth | Tua nifer yr wythnosau o absenoldeb |
|---|---|---|
| 95% | 9 niwrnod | 2 wythnos |
| 90% | 19 niwrnod | 4 wythnos |
| 85% | 29 niwrnod | 6 wythnos |
| 80% | 38 niwrnod | 8 wythnos |

Os ydych yn teimlo bod angen cefnogaeth neu strategaethau i helpu'ch plentyn i ddychwelyd i'r ysgol yn rheolaidd, cysylltwch â Swyddog Lles Addysg eich ysgol drwy'r Gwasanaeth Lles Addysg ews@npt.gov.uk

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth i sicrhau dyfodol llwyddiannus ar gyfer eich plentyn.

***Yn gywir,***





***Mr A.D Thomas***
***Cyfarwyddwr Addysg,***
***Hamdden a Dysgu Gydol Oes***

***Y Cyng. Mrs N.Jenkins***
***Aelod y Cabinet dros Addysg a'r***
***Blynyddoedd Cynnar***